

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

### Ffurflen Gais am Fathodyn Glas

Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais o dan y meini prawf a ganlyn llenwi'r ffurflen hon, a fydd wedyn yn dilyn y llwybr carlam trwy'r broses ymgeisio.

Mae hyn yn berthnasol i bobl:

- a. sydd â chyflwr angheuol a nam ar symudedd; ac
- b. sydd â ffurflen DS 1500 wreiddiol, llythyr ategol oddi wrth eu nyrs Macmillan neu arbenigwr iechyd perthnasol arall.

#### Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn yn y canllawiau cysylltiedig.

Llenwch adran 1 isod a llofnodwch y datganiadau ar y dudalen olaf. Bydd angen i chi hefyd ddarparu'r dogfennau priodol i gadarnhau eich cyfeiriad a phwy ydych.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu ymgeisydd sy'n methu â llenwi'r ffurflen ei hun, rhwch ei fanylion yn yr adrannau priodol a llofnodwch y ffurflen ar ei ran.

**Ar ôl llenwi'r ffurflen, anfonwch hi drwy'r post at:**

**Bathodyn Glas  
Cyswllt Môn  
Cyngor Sir Ynys Mon  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW**

**01248 752155  
CyswlltMon@ynysmon.gov.uk**

**Gweler canllawiau pellach ar gwblhau'r ffurflen hon yn y nodiadau canllaw atodol. Nodwch y gallai gwneud ceisiadau twyllodrus neu gamddefnyddio bathodyn arwain at ddirwy o £1,000 ac/neu fforffedu'r bathodyn.**

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

### Adran 1 – Gwybodaeth am yr ymgeisydd

Teitl (Dewiswch)	Mr / Mrs / Miss / Ms	Arall	
Enw cyntaf			
Cyfenw			
Cyfenw ar enedigaeth (os yn wahanol)			
Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB)			
Man eich Geni	Tref		
	Gwlad		
Rhif Yswiriant Gwladol			
Cyfeiriad presennol			
Cod Post			
Manylion cyswllt	Cartref		
	Ffôn Symudol		
	E-bost		
Cyfeiriad blaenorol, os yn wahanol yn y tair blynedd ddiwethaf			
Cod Post			
<b>At ddibenion gorfodi, enwebwch rif(au) cofrestru cerbyd y prif geir yr ydych yn bwriadu defnyddio'r Bathodyn Glas ynddynt:</b> (Dylid enwebu hyd at dri rhif cofrestru, ond cofiwch y gellir defnyddio cerbydau eraill)			

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

### Datganiadau a llofnodion

#### Datganiadau gorfodol am yr wybodaeth rydych wedi'i darparu a'r broses ymgeisio

- Darllenwch y datganiadau a ganlyn yn ofalus.
- Ticiwch y blychau perthnasol i ddangos eich bod wedi darllen pob datganiad a'i ddeall.
- Bydd methu â rhoi tic yn un o'r datganiadau hyn o bosib yn golygu na allwn ystyried eich cais.
- Gall darparu gwybodaeth dwyllodrus arwain at erlyn a dirwy.

Bydd yr holl ddogfennau perthnasol i'r cais hwn yn cael eu trin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu rhannu o fewn yr awdurdod lleol, gydag awdurdodau lleol eraill, yr heddlu a swyddogion gorfodi parcio, i ddatgelu ac atal twyll. Ystyrir unrhyw wybodaeth feddygol yr ydych wedi'i rhoi i gefnogi'r cais hwn, o dan y Ddeddf Diogelu Data, yn "ddata personol sensitif". Fe'i datgelir i drydydd parti yn ôl yr angen yn unig, i weithredu a gweinyddu cynllun y Bathodyn Glas ac i asiantaethau ac Adrannau eraill y Llywodraeth i ddilysu prawf o hawl neu fel sy'n ofynnol fel arall o dan y gyfraith.

Datganiadau i'w cwblhau gan **BOB** ymgeisydd, rhiant neu ofalwr.

Rwy'n cadarnhau fod y manylion, hyd y gwn i, yn gyfan ac yn fanwl gywir. Sylweddolaf y gallwch weithredu yn fy erbyn os oes gwybodaeth anghywir wedi'i darparu yn y ffurflen gais hon.	
Rhoddaf ganiatâd i'r awdurdod lleol wirio fy manylion personol yng nghronfa ddata Treth Gyngor yr awdurdod lleol, fel nad oes angen i mi roi prawf o fy nghyfeiriad.	
Rwy'n deall bod yn rhaid i mi roi gwybod yn brydlon i fy awdurdod lleol am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar fy hawl i fathodyn.	
Rwy'n deall, pe bai fy nghais yn llwyddiannus, bod rhaid i mi beidio â chaniatáu i unrhyw un arall ddefnyddio'r bathodyn er eu budd eu hunain ac mae'n rhaid i mi ddefnyddio'r bathodyn yn unol â rheolau'r cynllun fel y manylir yn eu cylch yn nhaflen "Cynllun y Bathodyn Glas – Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" a anfonir ataf gyda'r bathodyn. <b>Gallai ceisiadau twyllodrus neu gamddefnyddio bathodyn arwain at ddirwy o £1,000 a/neu fforffedu'r bathodyn.</b>	
Rwy'n deall bod rhaid i mi beidio â bod â mwy nag un Bathodyn Glas dilys ar unrhyw adeg.	
Rwy'n cadarnhau nad wyf yn ddeiliad Bathodyn Parcio Glas Person Anabl a gyhoeddwyd gan awdurdod lleol gwahanol ar hyn o bryd.	
Deallaf y byddwch yn trin yr holl ddogfennau perthnasol i'r cais hwn yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, ac y gallwch eu rhannu gydag awdurdodau lleol eraill, yr heddlu a swyddogion gorfodi parcio i ddatgelu ac atal twyll.	

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

### Rhestr wirio o ddogfennau y gallai fod angen i chi eu hamgáu

Rydym wedi darparu rhestr wirio isod i helpu i'ch atgoffa ynghylch pa wybodaeth sydd angen i chi ei hamgáu. Os gwelwch yn dda, rhowch lungopiau ardystiedig os bosib.

Prawf o'ch cyfeiriad, dyddiedig yn y 12 mis diwethaf. (Os nad ydych wedi rhoi caniatâd i ni edrych ar gofnodion y Dreth Gyngor/cofrestr etholiadol/cofnodion ysgol).	
Prawf adnabod.	
Ffotograff yn null llun pasbort ohonoch chi eich hun gyda'ch enw ar y cefn (os yn bosib).	
Ffurflen DS1500, llythyr cefnogi gan nyrs MacMillan neu arbenigwr iechyd perthnasol arall.	

### Eich llofnod yn erbyn y datganiadau

Eich llofnod	
Printiwch eich enw	
Dyddiad y cais	

Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, beth yw eich perthynas?

	Perthynas
Gwarcheidwad Swyddogol	
Atwrneiaeth	
Cyfrifoldeb Rhieni	
Arall (Disgrifiwch)	

## **BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig**

*(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)*

**SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE**

**Pan fyddwch chi wedi gwneud cais am Fathodyn Glas ar ran rhywun arall, rhaid i chi fod yn ymwybodol y gallai defnyddio'r Bathodyn Glas yn groes i reolau'r cynllun arwain, o bosib, at erlyniad a dirwy a thynnu'r Bathodyn Glas yn ôl.**

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

### Nodiadau Canllaw

Bydd eich awdurdod lleol yn gwirio eich cais ac yna'n prosesu'r cais am fathodyn ar lwybr carlam, ar yr amod eich bod wedi cynnwys yr wybodaeth gywir i gefnogi eich cais. Mae'r datganiadau yn cynnwys adran i chi wirio hyn.

#### Prawf adnabod

Mae angen i ni gadarnhau pwy ydych i leihau'r posibilrwydd o geisiadau twyllodrus am Fathodyn Glas. Rhaid i chi atodi llungopi ardystiedig o un o'r canlynol fel prawf o bwy ydych:

- Tystysgrif Geni neu Fabwysiadu
- Tystysgrif Priodas neu Ysgariad
- Tystysgrif Partneriaeth Sifil neu Ddiddymu
- Pasbort
- Trwydded yrru ddilys
- Bathodyn Glas Cyfredol
- Cerdyn Teithio Rhatach

**Dogfennau adnabod** sy'n cynnwys **ffotograff** sydd orau ond cysylltwch â'ch awdurdod lleol os nad ydych yn gallu darparu un o'r uchod.

#### Cyfeiriad

Dylai prawf o'ch cyfeiriad fod ar ffurf bil gwreiddiol y Dreth Gyngor gyda'ch enw a'ch cyfeiriad chi arno. Rhaid cyflwyno'r gwreiddiol gyda'ch cais ac fe'i dychwelir ar ddiwedd y broses gais.

Nodwch na fydd raid i chi gyflwyno bil y Dreth Gyngor os ydych wedi rhoi tic yn y blwch priodol yn y datganiadau, sy'n rhoi eich caniatâd i'r awdurdod lleol wirio'ch cyfeiriad ar ei gofnodion y Dreth Gyngor neu gofrestr etholiadol.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen gais ar ran rhywun dan 16 oed, dylech roi eich caniatâd i'r awdurdod lleol wirio cofnodion ysgol i gadarnhau ei gyfeiriad.

#### Ffi Cyhoeddi'r Bathodyn Glas

Ni chodir tal ar ddeiliad y Bathodyn Glas pan fydd bathodyn yn cael ei gyhoeddi gyntaf; ond gellir codi ffi o hyd at £10 am fathodynau yn lle bathodyn sydd wedi'i golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi i'r fath raddau fel na ellir ei ddarllen gan bobl a fydd yn gwirio'r bathodyn pan ddefnyddir ef ar gyfer parcio neu gonsesiynau eraill.

#### Gwybodaeth arall

Dylech hefyd ddarparu Rhifau Cofrestru Cerbyd hyd at dri cherbyd y byddwch yn fwyaf tebyg o ddefnyddio Bathodyn Glas ynddynt, pe bai eich cais yn llwyddiannus. Mae'r wybodaeth hon yn helpu awdurdodau lleol wrth orfodi rheolau cynllun y Bathodyn Glas, ond nodwch y gallwch ddefnyddio Bathodyn Glas mewn cerbydau eraill hefyd.

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

### Cyngor Sir Ynys Môn

Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol

Teitl y Tîm Cyswllt Môn

### Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae gennych hawl i wybod am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Darllenwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda gan ei bod yn cyfeirio at hawliau ychwanegol y dylech wybod amdanynt.

Cyngor Sir Ynys Môn yw'r rheolydd data ar gyfer eich gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn diogelu eich gwybodaeth ac yn penderfynu sut y caiff ei defnyddio. Y term cyfreithiol am ddefnyddio gwybodaeth yw prosesu. Hefyd, y term cyfreithiol am wybodaeth amdanoch chi yw *data personol*.

Yn ogystal, mae Allied Publicity Services(Manchester)Limited ac Valtech hefyd yn reolwyr data. Eu cyfeiriadau yw APS Group Chetham House, Bird Hall Lane, Cheadle Heath, Cheshire, SK30 0ZP ac Valtech 46 Colebrooke Row,London, NY 8AF.

Bydd y Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i:

Rheoli ymholiadau Tai

Darpariaeth o Addysg

Gweinyddu'r asesiad a'r casglu o drethi, i gynnwys Refeniw, budd-dal a Grantiau

Gweinyddu ac asesu trwyddedau a chofrestrau

Gweinyddu'r Bathodyn Glas

Rheoli cofnod archifol er mwyn rhesymau hanesyddol neu er mwyn ymchwil

Cynllunio, yn cynnwys ceisiadau

Mentrau twyll lleol

Defnydd o deledu cylch cyfyng

Taliadau

Casglu data ar gyfer System Rheoli Cwsmer corfforaethol yn cynnwys, enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol, e-bost, rhif ffôn, hanes trafodaethol, dewis iaith, (am wybodaeth ychwanegol, plis gwelwch Nodyn Preifatrwydd Digidol)

Efallai creu cyfrifon ar rhan sefydliadau allanol, gyda caniatâd y cwsmer

Pryderon, Cwynion, Canmoliaeth neu Ymholiadau,

dyma'r diben a fwriedir o brosesu. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion nad ydynt yn gydnaws â pham y cafodd ei chasglu yn y lle cyntaf.

Ni fydd y Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio. Mae proffilio yn golygu unrhyw fath o brosesu awtomataidd ar eich data personol er mwyn gwerthuso neu ddadansoddi neu ragfynegi pethau amdanoch chi. Gallai hyn gynnwys eich sefyllfa economaidd, iechyd, tueddiadau personol, diddordebau neu ymddygiad.

Bydd y Cyngor yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i wlad (neu Sir) arall, dim ond os bydd angen trosglwyddo parthed bathodyn glas dilys, gyda chaniatâd y person sydd yn berchen y bathodyn.

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol i wneud hynny; neu i berfformio tasg sydd er budd cyhoeddus; neu am eich bod wedi rhoi eich caniatâd. Y term cyfreithiol am hyn yw'r *sail gyfreithiol o brosesu*.

Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am eich bod wedi rhoi eich caniatâd llwyr i'r prosesu. Nodwch os gwelwch yn dda, gan eich bod wedi cytuno i'r prosesu, mae gennych hawliau ychwanegol, sy'n cael eu hegluro isod.

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth gyda chyrrff cyhoeddus a fydd yn cynnwys rhywfaint o ddata personol. Nodwch os gwelwch yn dda y bydd y Cyngor yn casglu ac yn rhannu data gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) mewn perthynas â'i waith a'i astudiaethau archwilio. Bydd data'n cael ei rannu hefyd yn unol â'r ddyletswydd a nodir yn Adran 33 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig

SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE

(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)

Ni fydd y wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu yn cael ei rhannu gydag unrhyw sefydliadau eraill, heblaw fod perchennog Bathodyn Glas dilys yn gofyn, ac yn yr achosion hyn bydd y wybodaeth am drosglwyddiad i Sir arall, lle mae'r perchennog yn mynd i gartrefu, yn digwydd.

Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw am amser sy'n ofynnol neu'n angenrheidiol, a chaiff ei dinistrio'n ddiogel. Mae'r cyfnodau cadw wedi eu nodi yn rhestr y Cyngor o gyfnodau cadw, a gelwir hon yr atodlen gadw. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data os gwelwch yn dda.

Mae gennych chi hawliau cyfreithiol, ac mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth ydynt.

**Mae gennych yr hawl i gael cadarnhad fod gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei defnyddio.** Bydd y Cyngor yn darparu cadarnhad os gofynnwch amdano.

**Mae gennych yr hawl i gael copi o'ch data personol.** Darperir copïau o'ch data personol i chi o fewn y cyfnod statudol o un mis (neu, os yw darparu eich data personol yn fater cymhleth, fe wneir hyn cyn gynted ag sy'n rhesymol o fewn 3 mis). Darperir eich data personol yn rhad ac am ddim i chi, fodd bynnag, os tybir fod eich cais yn *amlwg yn ddi-sail* neu'n *ormodol*, codir ffi resymol arnoch. Cewch ofyn i gael eich data personol trwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.

**Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro gwybodaeth amdanoch chi. Gelwir hyn yr hawl am gywiriad.** Mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch data personol gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Fe wneir hyn o fewn 1 mis, neu os yw eich cais yn fwy cymhleth, o fewn 3 mis.

**Yr hawl i gael dileu data personol.** Mae gennych yr hawl i ofyn am i ddata personol gael ei ddileu mewn amgylchiadau penodol:

- Pan nad yw'r data personol bellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r diben o'i gasglu/prosesu yn wreiddiol;
- Os ydych yn tynnu eich caniatâd yn ôl
- Pan ydych yn gwrthwynebu'r prosesu gan y Cyngor ac nad oes unrhyw fudd cyfreithlon sy'n drech na hynny o barhau â'r prosesu;
- Os cafodd y data personol ei brosesu'n anghyfreithlon;
- Pan fo rhaid dileu'r data personol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- Pan fo'r data personol yn cael ei brosesu mewn perthynas â chynnig *gwasanaethau cymdeithas wybodaeth* i blant, er enghraifft "app" a ddatblygir yn benodol i blant.

**Yr hawl i gyfyngu ar brosesu.** Pan honnir fod data yn *anghywir* neu fod yr *hawl i ddileu* wedi cael ei weithredu, gallwch ofyn i'r Cyngor gyfyngu prosesu hyd nes bod gwiriadau dilysu wedi cael eu cwblhau.

**Yr hawl i wrthwynebu.** Yn ogystal â'r hawl i wrthwynebu bod eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio at farchnata uniongyrchol, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu sy'n seiliedig ar berfformio tasg er budd cyhoeddus/defnyddio awdurdod swyddogol (yn cynnwys proffilio), a phrosesu at ddibenion ymchwil gyddonol/hanesyddol ac ystadegau.

**Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd.** Mae gennych yr hawl i beidio bod yn destun penderfyniadau sy'n seiliedig yn llwyr ar brosesu awtomataidd, yn cynnwys proffilio, sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol arnoch chi neu'n effeithio arnoch mewn modd sylweddol.

### Sut i gysylltu â ni

Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Swyddog Diogelu Data drwy e-bost, post neu ffôn os oes gennych unrhyw ymholiadau am y polisi preifatrwydd hwn neu'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch chi. Gellir cysylltu gyda Swyddog Diogelu Data (SDD) y Cyngor drwy e-bost: [DPO@anglesey.gov.uk](mailto:DPO@anglesey.gov.uk) neu [SDD@ynysmon.gov.uk](mailto:SDD@ynysmon.gov.uk). Rydym yn gobeithio y gall ein SDD ateb unrhyw ymholiad neu ddatrys unrhyw bryder a fydd gennych am y modd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol hefyd yn rhoi i chi'r hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylol yn y man yr ydych yn gweithio, yn byw fel arfer neu ble y digwyddodd unrhyw achos o dorri'r cyfreithiau diogelu data. Yr awdurdod goruchwylol yn y DU yw'r Comisiynydd Gwybodaeth a gellir cysylltu <https://ico.org.uk/concerns>



## **BB1 – Llwybr Carlam ar gyfer achosion arbennig**

*(Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg)*

**SWYDDOGOL SENSITIF  
OFFICIAL SENSITIVE**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Sir Gaer SK9 5AF  
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk  
Rhif Ffôn: 0303 123 1113.

**Cyhoeddwyd y Rhybudd Preifatrwydd ar 24/05/18 a'i ddiweddarau diwethaf ar (Mai 2018)**